

Tŷ Hywel

Yn Nhŷ Hywel mae swyddfeydd Aelodau'r Cynulliad a staff Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ni chewch fynd i'r mewn i'r adeilad hwn oni bai'ch bod wedi'ch gwahodd i gyfarfod neu ddigwyddiad.

Bydd ymwelwyr yn mynd i mewn i'r adeilad drwy'r blwch gwydr ar flaen yr adeilad, gan ddefnyddio'r drysau llithro gwydr awtomatig.

Gall yr adeilad fod yn brysur ac yn swllyd. Os ydych chi neu rywun sy'n ymweld gyda chi'n ei chael yn anodd sefyll mewn ciw, gallwch siarad ag aelod o staff er mwyn osgoi gwneud hynny.

Os ydych yn bwriadu ymweld â'r adeilad, gallwch ffonio ein Llinell Wybodaeth i ofyn am gymorth ac addasiadau. Rhif y Llinell Wybodaeth yw 0300 200 6565.

Y dderbynfa

Mae desg yn y dderbynfa lle gallwch ofyn i staff am wybodaeth. Byddant yn gofyn pwy ydych chi a phwy rydych wedi dod i'w weld. Byddant yn rhoi pàs i chi a bydd yn rhaid ichi wisgo hwn o amgylch eich gwddf drwy'r adeg. Byddant yn dweud wrthy'ch lle i fynd. Mae system dolen sain yma ar gyfer pobl fyddar sy'n defnyddio cymorth clyw.

Diogelwch

Ar ôl bod yn y dderbynfa, bydd yn rhaid ichi fynd drwy'r system diogelwch. Mae'n bosibl y bydd swyddog heddlu wrth y ddesg diogelwch hefyd. Bydd angen ichi wagu'ch pocedi a rhoi popeth mewn blwch, a rhoi'ch côt a'ch bag drwy'r peiriant sganio. Cewch eich eiddo'n ôl yr ochr arall i'r peiriant sganio. Ni chewch ddod â rhai eitemau, fel cyllyll, gynnu neu sisyrnau i'r adeilad. Caiff eitemau o'r fath eu cymryd oddi arnoch a'u rhoi'n ôl ichi, os bydd hynny'n briodol, wrth ichi adael yr adeilad.

Bydd angen ichi gerdded drwy fwa. Mae'n bosibl y bydd yn canu os oes gennych unrhyw beth wedi'i wneud o fetel. Os yw'n canu, bydd angen ichi sefyll ar fat arbennig lle bydd swyddog diogelwch yn symud ffon o gwmpas eich corff i weld beth oedd yn gyfrifol am wneud i'r larwm ganu. Ni ddylai'r ffon gyffwrdd â'ch corff. Ni fydd y ffon yn cyffwrdd â'ch corff.

Os oes gennych chi, neu rywun sy'n ymweld gyda chi, awtistiaeth, gallwch ofyn i'r swyddogion ddiffodd y sŵn.

Y neuadd

Gall y neuadd fod yn lle prysur a swllyd iawn. Mae toiledau i'w cael yma. Gallwch siarad ag aelod o staff os oes angen toiled hygyrch arnoch.

Siambr Hywel

Defnyddir y rhan hon o'r adeilad gan grwpiau ysgol ar gyfer dadleuon. Bydd aelod o staff yn dweud wrthy'ch lle i fynd. Mae hon yn ystafell fawr a gall fod yn brysur a swllyd. Mae system dolen sain yn yr ystafell.



Digwyddiadau neu gyfarfodydd eraill

Os ydych wedi dod i gyfarfod neu ddigwyddiad, bydd aelod o staff yn mynd â chi i'r ystafell lle y caiff y cyfarfod ei gynnal. Mae gan bob un o'n hystafelloedd cyfarfod system dolen sain ar gyfer pobl fyddar sy'n defnyddio cymorth clyw.

Larymau

Bydd y larwm tân yn canu bob dydd Llun am 9:00am i wneud yn siŵr ei fod yn gweithio. Mae'n swnllyd iawn. Os bydd y larwm tân yn canu ar unrhyw adeg arall, bydd angen ichi adael yr adeilad. Bydd aelod o staff yn dweud wrthy ch lle i fynd.

Bydd cloch yn canu bob dydd Mawrth a dydd Mercher am 13.20 a 13.25 i ddweud wrth yr Aelodau am fynd i'r Senedd. Mae'n uchel iawn a gallai beri gofid ichi.

Lle tawel

Os oes angen ichi fynd i le tawel, holwch yn y dderbynfa.

